

Cyd-destun yr ysgol

- Mae fy ysgol lleoliad yn cael 518 o fyfyrwyr. Mae 6.2% o rain yn cael cinio ysgol am ddim. (Llywodraeth Cymru, 2019)
- Mae 17 dosbarth, gan gynnwys 2 dosbarth meithrin ac un dosbarth meithrin-derbyn.
- Mae 10% o fyfyrwyr yn dod o gartrefi Cymraeg ac nid oes llawer o fyfyrwyr gyda cefndir lleiafrifoedd ethnig.
- Nodwyd yr ysgol bod 22% o'i ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac ond ychydig iawn o fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig. (Adroddiad Estyn, 2018).
- Mae'r ysgol yn cael ei leoli mewn ardal wedi'i hamgylchynu gan ystadau tai mewn ardal yn Abertawe.
- Mae 4 disgybl yn Dystion Jehovah, mae'r gweddill naill ai yn Gristnogion, heb ddatgelu eu ffydd neu ddim eisiau datgelu eu ffydd.

Damcaniaeth Urie Bronfenbrenner

Mae damcaniaeth Urie Bronfenbrenner yn pwysleisio y pwysigrwydd o amgylchedd y phlentyn. Mae'r damcaniaeth yn ffocysu ar yr cyd-destun ac ansawdd o amgylchedd y plentyn.

- Microsystem – Hyn yw'r haen mwyaf agos i'r plentyn a'r perthnasau cyntaf y phlentyn, er enghraifft yr perthynas rhwng y phlentyn a'i rhieni, brodydd neu chwiorydd, a'r ysgol.
- Mesosystem – Mae'r ail haen yn cynnwys y gwahanol rhyngweithiad rhwng aelodau yr microsystem. Gallai hyn cynnwys er enghraifft yr perthynas rhwng teulu'r phlentyn a'i athrawon.
- Exosystem – Yr trydydd haen yw'r haen sy'n ymgorffori elfennau sydd ddim yn effeithio'r plentyn yn uniongyrchol – er enghraifft, os oedd un rhiant yn colli ei swydd, fyddai hyn yn anuniongyrchol yn effeithio'r plentyn.
- Macrosystem – Yr haen allanol yw'r haen sy'n cynnwys credoau diwylliannol a chymdeithasol, penderfyniadau a gweithredodd sy'n dylanwadu ar datblygiad y phlentyn. (First Discoverers, 2019)
- Felly, fel y gwelwn, mae'r perthynas rhwng y plentyn a'r athrawon / yr ysgol yn berthynas hynod o hanfodol i ddatblygiad y plentyn. Mae'r damcaniaeth yn bwysig iawn i athrawon i ddeall oherwydd mae'n caniatáu i'r athrawon i greu perthynas sylfaenol gyda'r disgybl, ac yn rhoi siawns i'r athrawon i greu ystafell ddosbarth cyfoethog o gyfathrebu sy'n cynnwys y rhieni.

Model Bronfenbrenner (Parenta, 2018)

Cylchlythyr ysgol lleoliad yn dangos cysylltiadau i'r cymuned

Llun yn perthyn i Cari Tinnuche

Perthynas rhwng teuluoedd y ddisgyblion a'r ysgol

Yn ystod fy amser ar pontio mewn fy ysgol lleoliad, roedd hi'n amlwg i fi yr pwysigrwydd o perthynas cryf rhwng yr ysgol a rhieni yr disgyblion. Pryd mae athrawon a rhieni yn cael perthynas cryf, mae cyflawniad plant, gweithrediad cymdeithasol ac eu ffyrdd o addasu emosiynol yn chryfhau (Hill & Taylor, 2004). Er mwyn chadw yr perthynas bwysig yma, mae rhaid fod cydweithredu rheolaidd ac effeithiol rhwng y partneriaeth (Teaching Times, 2020). Mae rhaid darparu amgylchedd cyfarthrebol ac agored.

Yn ystod fy amser yn yr ysgol lleoliad, roeddwn i yn ddigon ffodus i siarad â rhiant er mwyn trafod fel roedd yr ysgol yn cadw'r perthynas yma'n fyw. Wnaeth y rhiant sôn am nifer o wahanol bethau, gan gynnwys:

- 3 noson rhieni'r flwyddyn a noson agored cyn symud i ddosbarth newydd
- Diweddariadau ar drydar a gwybodaeth ddiweddaraf trwy gylchlythyrau e-bost
- Diwrnodau ymweld rhieni – rhieni yn ymuno a'r dosbarth am fore neu brynhawn, yn helpu'r plant gyda'i gwaith / yn ymuno mewn gyda gweithgareddau.
- Adroddiadau blynyddol ac adroddiad targedau.

Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn sicrhau bod y rhieni yn chwarae rhan weithredol yn addysg ei phlant ac yn wneud yn siŵr bod y rhieni byth yn cael ei chadw yn y tywyllwch amdano fywyd ysgol ei phlant. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol yr ysgol fel helpu mas mewn 'discos' yr ysgol, creu cacennau neu roi pethau i werthu ar gyfer y ffair haf neu ffair Nadolig. Mae'r cymorth yma nid yn unig o fudd mawr i'r plant i weld ei rhieni yn chwarae rhan yn ei haddysg, ond yn codi ymddiriedaeth y rhieni yn yr ysgol ac yn help mawr i'r ysgol.

Dechrau wrth fy nhraed

Perthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned

Yn y Cwricwlwm newydd, mae un o'r pedwar diben yn sôn am y pwysigrwydd o helpu plant i ddod yn “ddinasyddion egwyddorol, gwybodus” (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r ddogfen yn dweud bod y Cwricwlwm newydd yn ceisio gwneud plant yn ddinasyddion mwy gwybodus trwy eu addysgu am “eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol” ac yn sicrhau fod y plant yn “parchu anghenion a hawliau pobl arall” (Llywodraeth Cymru, 2015).

Er mwyn cyrraedd y nod yma, mae perthynas cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned yn hanfodol. Gall cysylltiadau cymunedol cryf ddod ag ystod o fuddion. Nid yn unig y bydd perthynas dda yn helpu i godi proffil yn y gymuned, gall hefyd hyrwyddo'r ysgol fel sefydliad sy'n annog datblygiad tu hwnt i walydd yr ysgol. Gall hefyd ddod ag ystod o gyfleoedd na fyddent yn bodoli oni bai am y berthynas hon (Club Solutions Wales, 2020). Mae ysgolion yn creu y perthynas amhrisiadwy yma mewn nifer o wahanol ffyrdd, ac un ffordd llwyddiannus iawn o hyn a welais ar lleoliad oedd trwy ymweliadau o'r cymuned neu ymweld a llefydd yn y cymuned.

Er enghraifft ymweliadau o'r heddlu neu'r frigâd tan, y côr yn canu yn siopau lleol, côr yn perfformio mewn digwyddiadau lleol, ac ymweliadau o artistiaid Cymraeg er mwyn cyfoethogi eu diwylliant. Mae ymweliadau yma yn cael ei sôn amdano yn adroddiad Estyn yr ysgol, sy'n dweud “Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn yr ardal leol a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned trwy ymweld a pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn rheolaidd, fel yr eglwys leol neu mewn cartrefi i'r henoed”. (Estyn, 2018). Mae'r ymweliadau yma nid yn unig yn gwneud y disgyblion yn “dinasyddion mwy gwybodus” ond yn rhoi ystod o brofiadau iddynt, gan roi'r cyfle iddynt ddod ar draws hobi newydd, neu rywbeth maent yn mwynhau, ac mae'r cysylltiad hwn a'r gymuned yn rhoi profiadau i blant na fyddant byth yn eu hanghofio. Mae hefyd ardal wlyb leol mae'r ysgol yn helpu glanhau ac yn cynnal sydd ar gael i'r holl gymuned.

Cari Ann Tinnuche 1811204 ECAD4009

Perthnasau rhwng yr ysgol, y teulu a'r chymuned

Yn ôl ymagwedd Reggio Emilia mae rhieni wedi'u hintegreiddio mewn i ddysgu eu plentyn, ac mae'r gymuned yn chwarae rhan hanfodol mewn addysg y plant. Mae traddodiadau cydweithredu ymhlith busnesau bach a ffermwyr yn y gymuned yn sylfaenol i weithrediadau beunyddiol Reggio Emilia.

Mae dull Reggio Emilia yn credu bod athrawon yn gyfrifol ochr yn ochr gyda rhieni yn gyfrifol am addysg y plentyn (New, 2007). Mae ymagwedd Reggio Emilia yn cefnogi'r pwysigrwydd o berthynas gweithredol rhwng y gymuned, ysgol a'r teulu, ac mae aelodau o'r gymuned gan gynnwys y rhieni yn cael ei hannog i wirfoddoli yn y dosbarth (Nido Early School, 2018).

Cymuned mewn cyd-destun

Mae'n hanfodol i addysg y plant i ddysgu amdano'r gymuned er mwyn iddynt ddeall bod pobl yn cael gwahanol gredoau, ieithoedd, diwylliant. Mae cwrdd â phobl gyda gwahanol gefndiroedd yn ei pharatoi am fywyd fel oedolyn, ac mae cysylltiadau a'r gymuned yn atgyfnerthu hyn gyda phrofiadau fel ymweld ag Eglwysi lleol, ymweld â Mosque, ond hefyd trwy ddysgu am ddiwylliant gwahanol fel dathliadau Diwali, ymwelwyr Tystion Jehovah, ac yn y blaen. Mae'r profiadau cyfoethog yma o fudd enfawr iddynt i ddysgu am y gymuned sy'n llawn o unigolion amrywiol.

Club Solutions Wales (2020) School and Community links. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Estyn (2018) Adroddiad Estyn 2018. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Lôn%20Las%20en.pdf> (Darllenwyd Chwefror 7 2020)

First Discoverers (2020) Child Development theories: Urie Bronfenbrenner. Ar gael yn: <https://www.firstdiscoverers.co.uk/child-development-theories-urie-bronfenbrenner/> (Darllenwyd Chwefror 7 2020)

Hill, N., Taylor, L. (2004) Parental School Involvement and Children's Academic Achievement: Pragmatics and Issues. Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1111/j.0963-7214.2004.00298.x> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Llywodraeth Cymru (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Llywodraeth Cymru (2018) Crynodeb o adroddiad yr Athro Graham Donaldson. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Llywodraeth Cymru (2020) My Local School. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6702036?lang=en> (Darllenwyd Chwefror 5 2020)

New, R.S. (2007) Reggio Emilia as Cultural Activity: Theory in Practice, 46 (1), tud 5-13. Ar gael yn: http://lchc.ucsd.edu/MCA/Mail/xmcamail.2007_05.dir/att-0142/New__Rebecca_S.__2007__.__Reggio_Emilia_as_cultural_activity.pdf

Nido Early School (2018) Everything you need to know about the Reggio Emilia Approach. Ar gael yn: <https://nidoearyschool.com.au/news/post.php?s=2018-05-10-everything-you-need-to-know-about-the-reggio-emilia-approach> (Darllenwyd Chwefror 9 2020)

Parenta (2018) Bronfenbrenner - Children's learning in a wider context. Ar gael yn: <https://www.parenta.com/2018/09/01/bronfenbrenner-childrens-learning-in-a-wider-context/> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Teaching Times (2020) Bridging the Gap between Parents, Pupils and Schools. Ar gael yn: <https://www.teachingtimes.com/articles/bridging-the-gap-communication-parents-pupils-schools.htm> (Darllenwyd Chwefror 8 2020)

Tinnuche, C. (2020) Cylchlythyr ysgol yn dangos cysylltiadau i'r Cymuned. [Ilun]